Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

Gwobr Iechyd Gweithle Bach

Faint mae afiechyd yn ei gostio i fusnes?

Collwyd tua 175 miliwn o ddiwrnodau gwaith oherwydd salwch ym Mhrydain yn 2006, sy'n cyfateb i saith niwrnod i bob unigolyn sy'n gweithio. Yng Nghymru, ar gyfartaledd, mae absenoldeb oherwydd salwch yn costio £659 i gyflogwyr ar gyfer pob gweithiwr bob blwyddyn.

Pam y dylwn i gymryd rhan mewn materion iechyd yn y gweithle?

Mae'r achos busnes dros wella iechyd yn y gweithle yn parhau i gryfhau. Mae ffocws ar iechyd a lles yn gallu calonogi ac ysgogi gweithwyr ac arwain at fwy o effeithiolrwydd, cynhyrchiant ac ysbryd cystadleuol. Amcangyfrifir bod arferion effeithiol yn y gweithle yn gallu lleihau absenoldeb salwch o 20-50 y cant.

Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Mae cymorth a chyngor ar gael yn rhad ac am ddim i fusnesau a sefydliadau bach i ddatblygu mentrau iechyd a lles yn y gweithle, trwy'r 'Wobr Iechyd Gweithle Bach'.

Beth yw'r Wobr Iechyd Gweithle Bach?

Y Wobr Iechyd Gweithle Bach yw'r marc ansawdd cenedlaethol newydd ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle, i sefydliadau sy'n cyflogi llai na 50 o bobl. Mae tair lefel i'r wobr (efydd, arian ac aur) i gydnabod pob cam datblygu sydd wedi'i gyflawni.

75% wedi'i ailgylchu
recycled

D6220809

Sut rwy'n cymryd rhan?

Gallwch chi gadarnhau bod gennych ddiddordeb mewn cael cymorth a chyngor rhad ac am ddim drwy gysylltu â'ch Cynghorydd Rhanbarthol ar Iechyd yn y Gweithle neu drwy fynd i'r wefan:

Gogledd Cymru

Carol Tunnah ar 07792 353336

e-bost: carol.tunnah@nphs.wales.nhs.uk

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Wendy Bowler ar 07973 749683

e-bost: wendy.bowler@nphs.wales.nhs.uk

De a Dwyrain Cymru

Sion Lingard ar 07973 749729

e-bost: sion.lingard@nphs.wales.nhs.uk

www.cymruiacharwaith.com